GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Sgan ar eich Dwplecs Rhydweliol - Eglurhad

# Labordy Fasgwlar

---

**Eich sgan**
Yn gyntaf …. Mae'r math hwn o sgan yn gwbl ddi-boen ac ni ddefnyddir unrhyw nodwyddau nag unrhyw ddyfeisiau mewnwthiol eraill. Yn debyg i sgan babi, defnyddir uwchsain i greu delweddau sgrin sy'n dangos llif y gwaed o fewn eich gwythiennau a'ch rhydwelïau.

Mae'n bosibl mae sonograffydd gwrywaidd neu fenywaidd fydd yn cynnal y sgan, yn dibynnu pwy fydd ar ddyletswydd. Os byddwch chi'n bryderus am gael eich sganio gan berson o ryw wahanol, gallwch gysylltu â'r adran a byddwn yn trafod yr apwyntiad.
Rhif ffôn: 01633 - 238287.

**Beth i'w ddisgwyl**
Cyn eich sgan, mae'n bosibl y bydd eich technolegydd am asesu eich gwythiennau gyda rhai mesuriadau pwysedd sydd hefyd yn gwbl ddi-boen. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn rhaid i'r technolegydd ofyn rhai cwestiynau i chi er mwyn deall eich symptomau'n well.

Gofynnir i chi dynnu eich trowsus, sanau/ sgert a theits ayyb ac i orwedd yn wastad ar y gwely. Bydd y technolegydd yn rhoi cyffen pwysedd o gwmpas eich pigyrnau ac un ar ran uchaf eich braich. Bydd y cyffiau wedyn yn cael eu chwyddo i fyny a'r pwysedd gwaed yn cael ei fesur ym mhob man y mae angen.

Mae'r profion hyn yn caniatáu i'r technolegydd ragweld y radd o glefyd rhydweliol (os o gwbl) a phenderfynu a ydych angen cael eich sganio ai peidio.

Os ydych chi angen sgan, bydd y technolegydd yn rhoi ychydig o gel oer ar eich coes, yn rhoi'r stiliwr ar wyneb y croen ac yn sganio o ben eich coes mor bell i lawr ag sydd angen. Mae'n bosibl y byddwch chi'n teimlo ychydig o bwysedd ac yn clywed rhai synau rhyfedd wrth iddyn nhw wneud hyn.

**Pa mor hir fydd hyn yn para?**
Fel arfer, bydd y math hwn o sgan yn para am ryw 30 - 40 munud ac yna byddwch yn rhydd i fynd.

## Sut gallwch chi baratoi

Nid oes angen unrhyw baratoi penodol; fodd bynnag, mae’n bosibl y bydd yn ddefnyddiol gwisgo top gyda llewys byr er mwyn cymryd y pwysedd gwaed yn eich braich yn fwy difrifol.

## Ar ôl y sgan

Ar ôl gorffen y sgan, bydd y technolegydd yn ysgrifennu adroddiad i’w anfon at eich ymgynghorydd yn rhoi canlyniadau’r archwiliad.  Os bydd yr ymgynghorydd yn dymuno eich gweld eto, bydd yn cysylltu â chi.

## Cludiant Cleifion

Os byddwch chi’n cyrraedd ar gyfer eich apwyntiad gyda chludiant cleifion, a fyddech chi cystal â dweud wrth y technolegydd er mwyn iddo/ iddi roi gwybod i’r cludiant pan fydd eich archwiliad wedi gorffen.

**“This document is available in English /**
**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg”**